| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad** | **22 Medi 2016** |
| **Teitl** | **Adolygiad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **Pwrpas** | **Adrodd ar y bwriad i adolygu a diweddaru'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a chael mewnbwn dechreuol gan y Pwyllgor ar y broses** |

## 1.0 Cefndir

1.1 Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Y Ddeddf) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd megis Cyngor Gwynedd i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT).

1.2 Dogfen strategol yw'r CGHT i'w defnyddio gan Awdurdodau Lleol er mwyn cynllunio ar gyfer rheoli, datblygu a hyrwyddo eu rhwydwaith hawliau tramwy. Dylai'r CGHT osod fframwaith ar gyfer adnabod, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad. Yn achos Gwynedd paratowyd y CGHT presennol rhwng 2004 a 2007 a chafodd ei fabwysiadu gan Y Cyngor a'i gyhoeddi yn Hydref 2007. Rhoddi'r linc yma i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2007.

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisïau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Cynllun-Gwella-Hawliau-Tramwy.aspx

1.3 Mae Deddf 2000 yn nodi dylai'r awdurdod priffyrdd gynnal adolygiad o'r CGHT o fewn 10 mlynedd o'i gyhoeddi sy'n golygu bod gofyn i Wynedd gynnal adolygiad o'r Cynllun gwreiddiol cyn Tachwedd 2017. Ym mis Gorffennaf eleni cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i Awdurdodau Lleol ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy sy'n egluro'r drefn a'r camau i'w cymryd ar gyfer cynnal yr adolygiad deng mlynedd ynghyd a'r pharatoi cynllun newydd. Atodir y canllawiau - dogfen pdf.

1.4 Gwahoddir y Pwyllgor Craffu i ystyried yn gyntaf sut gall y Cyngor gydymffurfio ac ymateb i'r gofynion a'r broses o baratoi a geir yng Nghanllawiau CGHT 2016, yr angen (neu beidio am Gynllun Newydd) yn ogystal â'r adnoddau ar gyfer cyflawni hyn.

## 2.0 Y broses o baratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Newydd

2.1 Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn rhannu'r broses o baratoi CGHT i ddau brif gam -

**Cam 1** : Cynnal Asesiad – rhaid cyflawni'r canlynol cyn Tachwedd 2017.

- Hysbysu cyrff allweddol megis y Cynghorau Cymuned, Siroedd Cyfagos, CNC , Cymdeithas y Cerddwyr ayb bod y Cyngor yn bwriadu cynnal adolygiad.

- Cynnal trosolwg o gyflawniadau'r Cynllun cyntaf a beth sydd wedi newid.

- Asesiad o'r dystiolaeth sydd ar gael sy'n gysylltiedig â'r angen cyhoeddus nawr a'r angen posibl yn y dyfodol.

- Asesu i ba raddau y mae hawliau tramwy ac asedau mynediad eraill yn cwrdd ag anghenion y cyhoedd ar hyn o bryd a'r anghenion i'r dyfodol.

- Gwerthusiad o gyflwr y rhwydwaith, pa mor gywir yw'r Map Diffiniol, sut y rheolir ceisiadau i newid hawliau tramwy a sut hyrwyddir hamdden awyr agored.

- Trosolwg o'r elfennau cyffredin rhwng y Cynllun Gwella a chynlluniau eraill.

2.2 Yn dilyn paratoi'r asesiad gall yr Awdurdod benderfynu diwygio'r CGHT neu beidio. Os penderfynir peidio â diwygio'r Cynllun gwreiddiol rhaid adrodd i Lywodraeth Cymru yn egluro a chyfiawnhau'r penderfyniad. Os penderfynir bwrw ymlaen i baratoi Cynllun diwygiedig rhaid gweithredu Cam 2.

**Cam 2 -** Paratoi datganiad gweithredu newydd a Chynllun Cyflawni - rhaid cyflawni'r canlynol cyn Tachwedd 2018

- Paratoi Cynllun Cyflawni sy'n manylu ar sut bydd yr Awdurdod yn rheoli hawliau tramwy , i gynnwys gwerthuso cynnydd y Cynllun cyntaf, adolygu polisïau ar gyfer rheoli hawliau tramwy, cynlluniau gwaith i gynnwys mesur a monitro , pwy fydd yn cyflawni ac amserlen.

- Drafftio cynllun a'i gylchredeg am sylwadau, dylid caniatáu o leiaf 12 wythnos am sylwadau yna addasu'r drafft fel bo angen.

- Cyhoeddi'r CGHT terfynol.

- Cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni, sef rhaglenni gwaith tymor byr a chanol fydd yn ddogfen ar wahân i'w adolygu a'i ddiweddaru parhaus .

**Croesawir sylwadau gan y Pwyllgor ar y broses o baratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Newydd.**

3.0 **Pam bod angen Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd i Wynedd ?**

3.1 Rhaid yn gyntaf nodi bod hi'n ofynnol i bob awdurdod priffyrdd gyhoeddi CGHT yn unol ag adran 60(1) o ddeddf Cefn Gwlad a Mynediad 2000. Ond rhaid hefyd ystyried pwrpas a defnydd y Cynllun fel dogfen sy'n cwmpasu dyletswyddau'r Awdurdod ac yn gosod blaenoriaethau ym maes hawliau tramwy a mynediad ar droed, beic a marchogaeth.

3.2 Ers paratoi a chyhoeddi'r cynllun gwreiddiol gwelwyd newidiadau mawr sy'n dylanwadu ar y maes, sef :

- Newid yn yr hinsawdd ariannol sydd wedi arwain at doriadau mewn cyllidebau tuag at waith cynnal y rhwydwaith llwybrau er enghraifft lleihad yn gyllideb cynnal o £351,390 yn 2007 / 08 i £235,000 yn 2016 / 17 gyda lleihad arfaethedig i £150,000 yn 2017 / 18. Dros yr un cyfnod bu lleihad yn y nifer y swyddogion yn y tîm hawliau tramwy o 12.5 i 8 gyda 1 swydd bellach i'w cholli yn 2017 / 18.

- Dyfodiad deddfwriaeth newydd sy'n dylanwadu a gôr gyffwrdd a'r maes mynediad yn arbennig yr agenda iechyd a lles er enghraifft Deddf, Teithio Llesol 2014, Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf yr Amgylchedd 2016.

- Twf cyffredinol yn y galw am lwybrau a chyfleusterau mynediad o safon uchel a chydnabyddiaeth o'u pwysigrwydd i'r diwydiant twristiaeth.

3.3 Rhaid tynnu sylw at yr angen i adolygu a diwygio polisïau'r Awdurdod sy'n ymwneud a gweithdrefnau cynnal a chadw a'r prosesau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â diweddaru'r map diffiniol. Mabwysiadwyd y polisïau presennol yn 2011, ac fel sydd wedi ei nodi eisoes mae'r lleihad mewn adnoddau yn golygu nad yw'n bellach yn realistic i'r Gwasanaeth ymateb yn effeithiol i lawer o'r gweithdrefnau sydd yn nogfen 2011. Ceir linc yma i'r Polisïau Hawliau tramwy 2011 https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Parcio,-ffyrdd-a-theithio/Polisiau-Hawliau-Tramwy.pdf

3.4 Byddai cynllun diwygiedig yn cryfhau achos y Cyngor am adnoddau all fod ar gael gan Lywodraeth Cymru neu i gefnogi ceisiadau grant. Mae'n werth nodi bu Llywodraeth Cymru yn cyllido gwelliannau i'r rhwydwaith llwybrau drwy raglen grant CGHT ers 2008. Dros y blynyddoedd diwethaf mae Gwynedd wedi derbyn oddeutu £75,000 y flwyddyn, ar hyn o bryd nid oes sicrwydd os bydd y cyllid yma yn parhau.

3.5 Byddai paratoi Cynllun newydd yn gyfrwng i gydweithio gydag eraill yn arbennig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

**Ydy'r Pwyllgor yn cytuno fod angen Cynllun Newydd ar gyfer Gwynedd a bod yna gyfiawnhad mewn paratoi Cynllun Newydd ?**

## 4.0 Materion i'w hystyried

4.1 **Gweithio gyda'r Parc Cenedlaethol** - paratowyd y Cynllun cyntaf gydag ond ychydig o fewnbwn gan y Parc Cenedlaethol. Nid yw'r Ddeddf yn caniatáu i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i baratoi cynllun ei hunain ac argymhellir yn y canllawiau bod y Parciau yn cydweithio gyda'r Awdurdodau Priffyrdd perthnasol. Mae camau cychwynnol wedi eu cymryd i sefydlu trefn cydweithio agosach gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) sy'n cyfeirio at yr angen i gydweithio er mwyn paratoi'r CGHT.

4.2 Gellir hefyd paratoi CGHT ar y cyd a chynghorau cyfagos, efallai na ddylid diystyru hyn ond mae'n gwneud mwy o synnwyr i gydweithio gyda'r Parc gan ein bod yn gweithio dros yr un ardal ddaearyddol. Mae'n fwriad parhau i drafod cydweithio gyda'r Parc i gynnwys paratoi'r CGHT.

4.3 **Adnoddau -** ar adeg paratoi'r cynllun gwreiddiol rhwng 2004 a 2007 roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i'r Awdurdodau Lleol tuag at y gwaith. Safiad presennol Y Llywodraeth ydi, na fydd cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer yr adolygiad,

er i'r mwyafrif o Awdurdodau Lleol bwysleisio'r angen os ydynt am ddarparu Cynllun fydd yn cyflawni gofynion canllawiau'r Llywodraeth.

4.4 Dyma le rhagwelir bydd y gofyn mwyaf am adnoddau a capasiti ychwanegol :

- **Asesu cyflwr y rhwydwaith** : roedd canllawiau 2002 ar gyfer paratoi'r Cynllun cyntaf yn gofyn am asesiad cynhwysfawr o gyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy. Adeg hynny cyflogwyd swyddog i ymgymryd â'r dasg ac archwiliwyd 1,317km o lwybrau'r Sir sef oddeutu 35% o'r rhwydwaith cyfan. Mae canllawiau 2016 hefyd yn gofyn am asesiad cyflwr, ond heb unrhyw adnoddau staff ychwanegol bydd rhaid cyfyngu ymdrechion i lwybrau o fewn categorïau 1 a 2 gan wneud defnydd o wybodaeth sydd gan y Parc Cenedlaethol a Chymdeithas y Cerddwyr. Er yn ddefnyddiol mae perygl bydd anghysondebau yn y wybodaeth fydd yn golygu gall olygu gwaith ychwanegol i'w ddadansoddi a'i gyflwyno.

- **Asesu angen y cyhoedd a nodi cyfleoedd :** mae'r adolygiad yn pwysleisio'r angen i adnabod beth yw anghenion y cyhoedd o safbwynt mynediad a sut gellir ymestyn a hyrwyddo cyfleoedd mynediad i alluogi rhagor o bobl i wneud defnydd o'r rhwydwaith er budd eu hiechyd a lles. Er mwyn canfod barn sampl nodweddiadol o drigolion Gwynedd gellir ystyried holiadur ar lein, sesiynau galw mewn, cysylltu'n uniongyrchol gyda Chynghorau Cymuned, Fforymau Mynediad a chyrff megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Cynhelir trafodaethau gyda'r tîm ymgysylltu i adnabod y dulliau mwyaf effeithiol o ymgysylltu gyda'r cyhoedd.

- **Fforymau mynediad :** mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor ac mae'r Parc Cenedlaethol yn gweinyddu Fforymau Gogledd a De'r Parc. Mae deddfwriaeth a chanllawiau'r adolygiad yn rhoi pwyslais ar rôl y Fforymau ac mae disgwyl iddynt chwarae rhan allweddol yn yr adolygiad gan gynnwys rhoi Cyngor ar flaenoriaethau camau gweithredu a helpu i ddatrys anghydfod rhwng safbwyntiau gwahanol.

4.5 Dyma'r opsiynau gellir eu hystyried mewn ymateb i'r gofyn am adnoddau ychwanegol :-

- Parhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru i roi cyllid ychwanegol i'r Awdurdodau Lleol ar gyfer adolygiad CGHT.
- Clustnodi rhan o'r grant gweithredu CGHT ,hynny yw os bydd ar gael ar ôl Mawrth 17.
- Sefydlu tîm prosiect ar y cyd rhwng Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol.

**Croesawir sylwadau gan y Pwyllgor ar y dull o baratoi'r cynllun a'r Adnoddau fydd eu hangen i gyflawni hyn.**

## 5. 0 Casgliad a chamau nesaf

5.1 Does dim amheuaeth bod y dasg o adolygu a pharatoi CGHT newydd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru am fod yn heriol i'r Adran Rheoleiddio. Credaf serch

hynny fod y sylwadau a gyflwynir yn rhan 3 o'r adroddiad yn gwneud achos cryf dros gynnal Cam 1 o'r adolygiad.

5.2 Yn sgil y newidiadau a datblygiadau sydd wedi cymryd lle ers paratoi'r Cynllun gwreiddiol mae'n synhwyrol hefyd i ymrwymo mewn egwyddor i Gam 2 o'r broses sef paratoi'r Cynllun diwygiedig a'r Cynllun Cyflawni ond eto, croesawir barn y Pwyllgor ar hyn.

5.3 Y camau nesaf fydd :

- Cynnal trafodaethau gyda'r Parc Cenedlaethol er mwyn adnabod a chytuno ar gyfleoedd cyd weithio.
- Cysylltu gyda Llywodraeth Cymru i bwyso arnynt i ymrwymo cyllid ar gyfer y gwaith o baratoi'r CGHT.
- Paratoi cynllun gweithredu ac amserlen fanwl ar gyfer y gwaith i gynnwys adnabod adnoddau staff sydd ar gael ar gyfer y gwaith.
- Cynnal yr ymgynghoriad cychwynnol drwy gysylltu gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref, Awdurdodau Cyfagos, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill sy'n berthnasol i'r maes gwaith.

5.4 Teimlaf fod gan y Pwyllgor yma rôl bwysig i'w chwarae nid yn unig gyda'r broses (sef y cam presennol) ond hefyd ym mharatoad a chyfeiriad y CGHT, gan y bydd yn gosod fframwaith ar gyfer darpariaeth y Gwasanaeth hawliau tramwy dros y blynyddoedd nesaf. I'r perwyl yma bwriedir adrodd yn ôl i'r Pwyllgor mewn oddeutu 6 mis.

## 6.0 Argymhelliad

6.1 Bod y Pwyllgor yn gefnogol i'r bwriad o adolygu a pharatoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i Wynedd a bod yr Adran Rheoleiddio yn adnabod dulliau o ddod ac adnoddau ynghyd ar gyfer y gwaith.

6.2 Bod yr Adran yn cysylltu gyda Llywodraeth Cymru i bwyso arnynt i gyllido'r adolygiad.

6.3 Cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Craffu mewn oddeutu 6 mis.